Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Trefniadau asesu ac adrodd statudol yn y Cyfnod Sylfaen

www.cymru.gov.uk

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

## Canllawiau

# Trefniadau asesu ac adrodd statudol yn y Cyfnod Sylfaen

**Cynulleidfa**

Holl arweinwyr, cadeiryddion pwyllgorau rheoli a pherchnogion lleoliadau nas cynhelir a ariennir; athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; awdurdodau lleol; a chyrff cenedlaethol sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn disodli'r canllawiau drafft *Trefniadau asesu ac adrodd dechreuol yn y Cyfnod Sylfaen* a gyhoeddwyd ym mis Mai 2011. Mae'n amlinellu'r gofynion statudol ar gyfer asesiadau athrawon a fydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer y Cyfnod Sylfaen o gychwyn blwyddyn ysgol 2011/12 mewn ysgolion a gynhelir a 2012/13 mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir.

**Camau i'w cymryd**

Rhaid i holl arweinwyr a phwyllgorau rheoli/perchnogion lleoliadau nas cynhelir a ariennir sy'n gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sicrhau bod y gofynion a eglurir yn y ddogfen hon yn cael eu gweithredu'n unol â'r dyddiadau a nodir.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:

Cangen y Cyfnod Sylfaen
Yr Is-adran Cwricwlwm
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6075
e-bost: foundationphaseinfo@cymru.gsi.gov.uk

Dylid cysylltu â'r canlynol i wneud ymholiadau ynghylch prosesau Casglu Data Cenedlaethol a chyflwyno data:
e-bost: ims@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 0870 242 3206 (cyfrwng Cymraeg)
0845 603 1108 (cyfrwng Saesneg)
Ffacs: 01767 375920
e-bost: DfESWales1@prolog.co.uk

Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

75% wedi'i ailgylchu recycled

Cyf: CAD/GM/0182
ISBN: 978 0 7504 6290 7

WAG12755
© Hawlfraint y Goron Mehefin 2011

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Canllawiau ynghylch asesu | 2 |
| Cefndir | 3 |
| Gofynion cyffredinol | 3 |
| Asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen | 5 |
| Cofnodi a chadw tystiolaeth ynghylch asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen | 7 |
| Asesiad parhaol y dosbarth meithrin, y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 (yn cynnwys lleoliadau nas cynhelir a ariennir) | 8 |
| Asesiad athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen | 8 |
| Deilliannau a chodau dilys ar gyfer asesiad athrawon | 9 |
| Cofnodi a chadw tystiolaeth ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen | 10 |
| Trefniadau adrodd yn y Cyfnod Sylfaen | 10 |
| Adrodd i rieni/gofalwyr | 11 |
| Trefniadau adrodd ar gyfer yr asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen | 11 |
| Adrodd ynghylch cynnydd plant yn y dosbarth meithrin, y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 | 12 |
| Trefniadau adrodd ar gyfer yr asesiad diwedd cyfnod | 13 |
| Pwerau'r Unigolyn Cyfrifol | 14 |
| Gwybodaeth gymharol yr ysgol | 15 |
| Gwybodaeth gymharol genedlaethol | 16 |
| Beth fydd yn digwydd pan fydd plentyn yn symud i leoliad neu ysgol newydd? | 17 |
| Deunyddiau atodol | 18 |
| Atodiad A: Crynodeb o'r trefniadau asesu | 19 |
| Atodiad B: Enghraifft allan o'r Proffil | 20 |

# Cyflwyniad

**1.** Mae'r ddogfen hon yn disodli'r canllawiau drafft *Trefniadau asesu ac adrodd dechreuol yn y Cyfnod Sylfaen* a gyhoeddwyd ym mis Mai 2011. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y trefniadau asesu ac adrodd i rieni/gofalwyr[1] yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ddogfen yn cynnwys hefyd y dyddiadau ar gyfer cwblhau asesiad athrawon.

**2.** Dylai holl arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir, ymarferwyr[2] a phenaethiaid ysgolion sy'n ymwneud â threfniadau asesu ac adrodd y Cyfnod Sylfaen gael copi o'r ddogfen hon.

**3.** Anfonir dau gopi i bob lleoliad nas cynhelir a ariennir a thri chopi i bob ysgol. Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

# Canllawiau ynghylch asesu

**4.** Mae'n hanfodol bod yr holl ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant yn deall datblygiad plant a'u hanghenion o ran dysgu. Trwy arsylwi plant pan fyddan nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau, bydd ymarferwyr yn darganfod sut mae sgiliau'r plant yn datblygu, beth maen nhw'n gallu ei wneud, a pha gymorth sydd angen arnyn nhw i hybu eu gwaith dysgu. Yn ogystal â hynny bydd ymarferwyr yn gallu casglu gwybodaeth am yr hyn mae'r plant yn ei wybod ac yn ei ddeall, ac hefyd gwybodaeth am eu dewisiadau personol. Mae'r data a'r wybodaeth a gesglir wrth arsylwi plant yn adnodd pwysig o safbwynt datblygu darlun cyflawn o'r plant, a dylai'r data a'r wybodaeth dan sylw symud gyda'r plentyn wrth iddo/iddi fynd trwy'r Cyfnod Sylfaen.

**5.** Mae arsylwi ac asesu cyflawniadau plant yn y ddarpariaeth barhaol, yn yr agwedd sy'n ymwneud â chyfoethogi'r ddarpariaeth ac yn y ddarpariaeth â ffocws ar draws ystod o gyd-destunau a thros gyfnod o amser yn galluogi ymarferwyr i:

- ddod i adnabod y plentyn unigol ac amlygu ei gryfderau, ei ddiddordebau a'i anghenion i ddatblygu
- rhoi gwybod i'r plant am eu cyflawniadau a'r camau nesaf ar gyfer dysgu a datblygu
- rhoi gwybod i'w cydweithwyr, rhieni/gofalwyr am gyflawniadau'r plant a'r camau nesaf ar gyfer dysgu a datblygu
- llywio gwaith pontio yn ystod y Cyfnod Sylfaen a rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

1 Trwy gydol y ddogfen hon, mae pob cyfeiriad at 'riant/gofalwr' a 'rhieni/gofalwyr' yn cynnwys unigolion eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant.

2 Trwy gydol y ddogfen hon, mae pob cyfeiriad at 'ymarferydd' yn cynnwys staff lleoliadau nas cynhelir a ariennir, cynorthwywyr dosbarth ac athrawon.

# Cefndir

**6.** Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi cyfuno'r hyn a elwid o'r blaen yn Flynyddoedd Cynnar (3 i 5 oed) ac yn Gyfnod Allweddol 1 (5 i 7 oed) y cwricwlwm cenedlaethol er mwyn creu un cyfnod addysg i blant rhwng 3 a 7 oed, a eglurir yn y *Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).

**7.** Dechreuodd y broses statudol o gyflwyno'r fframwaith y Cyfnod Sylfaen ym mis Medi 2008, i bob plentyn 3 i 4 oed mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir, a bydd y broses yn cael ei chwblhau yn ystod blwyddyn ysgol 2011/12. Bydd y trefniadau asesu ac adrodd cysylltiedig yn dechrau cael eu cyflwyno'n statudol o ddechrau blwyddyn ysgol 2011/12 ymlaen ar gyfer ysgolion. Mae mwy o wybodaeth yn Atodiad A.

# Gofynion cyffredinol

## Dyletswyddau arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir/penaethiaid[3]

**8.** Mae'n ddyletswydd ar arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir a phenaethiaid ysgolion a gynhelir i sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen, a'r trefniadau statudol ar gyfer asesu ac adrodd sy'n gysylltiedig â'r Cyfnod Sylfaen, yn cael eu gweithredu yn eu lleoliadau/ysgolion. Dylai arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir a phenaethiaid sicrhau bod eu lleoliadau/ysgolion yn cydymffurfio'n llawn â'r trefniadau statudol ar gyfer asesu ac adrodd a ddisgrifir yn y ddogfen ganllaw hon ac mewn unrhyw canllawiau dilynol.

**9.** Mae asesu ac adrodd statudol yn y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys y canlynol.

## Asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen

- O fewn 30 o ddyddiau gwaith ar ôl i blentyn ddechrau yn Cyfnod Sylfaen, dylid cynnal asesiad yn y chwe Maes Datblygiadol sy'n perthyn i'r *Proffil asesu datblygiad plentyn Cyfnod Sylfaen* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011)[4].
- Dylid llunio adroddiad ysgrifenedig i rieni/gofalwyr ynghylch cyrhaeddiad y plentyn ym mhob un o'r chwe Maes Datblygiadol a hynny yn ystod y tymor y cwblhawyd yr asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen.

---

[3] Trwy gydol y ddogfen hon, os cyfeirir at y 'pennaeth', rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol sicrhau bod dyletswyddau'r pennaeth yn cael eu cyflawni gan gynrychiolydd a enwebwyd gan y pennaeth os yw'n absennol dros dro neu'n barhaol.

[4] Trwy gydol y ddogfen hon, yr hyn a olygir wrth gyfeirio at y 'Proffil' yw'r *Proffil asesu datblygiad plentyn Cyfnod Sylfaen*.

**10.** Mae'r trefniadau hyn yn statudol ar gyfer ysgolion a gynhelir o gychwyn blwyddyn ysgol 2011/12 ac ar gyfer lleoliadau nas cynhelir a ariennir o gychwyn blwyddyn ysgol 2012/13.

**11.** Wrth i drefniadau'r asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen gael eu cyflwyno a threfniadau'r asesiad sylfaenol gael eu dileu, ac er mwyn sicrhau bod yr holl blant yn cael eu hasesu pan fyddan nhw'n cychwyn yn y Cyfnod Sylfaen am y tro cyntaf neu mor fuan wedyn ag y bo modd, bydd y trefniadau hyn mewn grym yn y ddwy flwyddyn ysgol 2011/12 a 2012/13 ar gyfer plant nad ydyn nhw wedi cael eu hasesu o'r blaen. Ym mhob achos rhaid adrodd am ganlyniad yr asesiad i'r rhieni/gofalwyr.

**12.** Os bydd plentyn wedi cychwyn yn y Cyfnod Sylfaen yn ystod y flwyddyn ysgol 2010/11 mewn lleoliad nas cynhelir a ariennir ac yn symud i ysgol a gynhelir yn ystod 2011/12 neu 2012/13 rhaid i'r ysgol sydd yn eu derbyn gynnal asesiad (gan ddefnyddio'r Proffil) yn ystod chwe wythnos cyntaf y plentyn yn yr ysgol.

**13.** Os bydd plentyn wedi cychwyn yn y Cyfnod Sylfaen yn ystod y flwyddyn ysgol 2010/11 mewn ysgol a gynhelir dylai'r ysgol asesu'r plentyn hwnnw (gan ddefnyddio'r Proffil) yn ystod chwe wythnos cyntaf y flwyddyn ysgol 2011/12.

**14.** Os bydd plentyn yn cychwyn yn y Cyfnod Sylfaen yn ystod y flwyddyn ysgol 2011/12 mewn lleoliad nas cynhelir a ariennir:

- rhaid i'r lleoliad hwnnw gynnal asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen (gan ddefnyddio'r Proffil) yn ystod y flwyddyn ysgol 2012/13 os bydd y plentyn yn aros yn y lleoliad hwnnw

neu

- rhaid i'r ysgol sydd yn derbyn y plentyn gynnal yr asesiad os bydd y plentyn yn trosglwyddo yn ystod y flwyddyn ysgol 2011/12 neu 2012/13.

## Dosbarth meithrin, dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 (ysgolion a gynhelir yn unig)

**15.** Dylid llunio adroddiad diwedd blwyddyn i rieni/gofalwyr gyda manylion cryno am gynnydd y plentyn ym mhob Maes Dysgu.

### Diwedd cyfnod

**16.** O fewn 20 o ddyddiau gwaith cyn diwedd tymor yr haf:

- dylid cynnal asesiad o gyrhaeddiad y plentyn yn neilliannau'r Cyfnod Sylfaen: Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol; Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; a Datblygiad Mathemategol

a

- dylid llunio adroddiad ysgrifenedig gyda manylion cryno am gynnydd y plentyn ym mhob Maes Dysgu.

## Asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen

**17.** O ddechrau blwyddyn ysgol 2011/12 ymlaen, bydd y Proffil yn cael ei gyflwyno yn ysgolion a gynhelir yn lle'r 12 Cynllun Asesu Sylfaenol achrededig a ddefnyddiwyd yn flaenorol yn ysgolion Cymru. Mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir, bydd y Proffil yn cael ei gyflwyno'n statudol o ddechrau blwyddyn ysgol 2012/13 ymlaen.

**18.** Rhaid i arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir, a phenaethiaid ysgolion a gynhelir, sicrhau bod:

- asesiad statudol ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei gynnal cyn pen chwe wythnos ar ôl i blentyn ddechrau yn y Cyfnod Sylfaen
- yr asesiad yn ymdrin â phob un o'r Meysydd Datblygiadol canlynol sy'n perthyn i'r Proffil:
  - Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol
  - Siarad a Gwrando
  - Darllen ac Ysgrifennu
  - Didoli, Trefnu a Rhifo
  - Agwedd at Ddysgu, Meddwl a Rhesymu
  - Corfforol
- asesiad yn cael ei gynnal o bob Maes Datblygiadol yn iaith y lleoliad.

**19.** Prif ddiben y Proffil yw asesu plentyn er mwyn rhoi darlun sylfaenol o'i gyrhaeddiad ar y pryd ac o'r camau nesaf ar gyfer datblygu. I'r rhan fwyaf o blant, cynhelir yr asesiad hwnnw pan fyddan nhw tua thair blwydd oed, h.y. yn ystod y tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Fodd bynnag, efallai na fydd rhai plant yn dechrau yn y Cyfnod Sylfaen (ac na fyddan nhw, felly, yn cael eu hasesu) nes byddan nhw'n bedair oed neu'n cyrraedd oedran ysgol gorfodol, h.y. yn ystod y tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn bump oed. Mae'r Proffil wedi'i gynllunio fel ei fod yn addas ar gyfer asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen i blant sydd rhwng 3 a 5 oed. Gellid defnyddio'r Proffil hefyd i gasglu tystiolaeth o gynnydd plentyn wrth iddo symud drwy ran gynnar y Cyfnod Sylfaen. Bydd y dystiolaeth yn dangos sut gynnydd mae'r plentyn yn ei wneud ym Meysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen.

**20.** Bydd pob asesiad yn cael ei wneud drwy gyfrwng gwaith arsylwi gan yr ymarferydd. Bydd yr ymarferwyr yn cael syniad da o ddatblygiad y plentyn cyfan drwy ddefnyddio'r chwe Maes Datblygiadol a restrwyd ym mharagraff 18. Ffurfir pob barn drwy benderfynu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â'r plentyn. Mae pob un o'r Meysydd Datblygiadol yn cynnwys saith Cam, ac mae dau neu dri Disgrifiad o Ymddygiad ar gyfer pob Cam. Yn Atodiad B gwelir enghraifft allan o'r Proffil, sy'n egluro un o'r Disgrifiadau Ymddygiad a'r Camau yn y Maes Datblygiadol sy'n ymwneud â'r maes Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol.

**21.** Mae'r Disgrifiadau o Ymddygiad yn ymdrin ag oedrannau datblygu cyfatebol sy'n ymestyn o 18 i 84 mis. Maen nhw fel hyn er mwyn darparu ar gyfer yr holl blant sydd rhwng 36 i 60 mis. Mae'n debygol bydd y Proffil yn ddefnyddiol i ymarferwyr y tu hwnt i'r asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen a gynhelir unwaith yn unig, am gyhyd ag y bydd cynnydd i'w wneud gan y plant yn erbyn y Disgrifiadau o Ymddygiad.

**22.** Mae'r tabl canlynol yn egluro'r oedran sy'n cyfateb i bob Cam yn y Proffil.

| Cam | Oedran cyfatebol (misoedd) |
|---|---|
| 1 | 18–24 |
| 2 | 24–30 |
| 3 | 30–36 |
| 4 | 36–48 |
| 5 | 48–60 |
| 6 | 60–72 |
| 7 | 72–84 |

**23.** Mewn amgylchiadau eithriadol gellir cofnodi plentyn fel W neu D.

- Gall W fod yn briodol os yw plentyn wedi methu â dangos digon o Ddisgrifiadau o Ymddygiad i gyfiawnhau dyfarnu Cam am Faes Datblygiadol penodol.
- Byddai D yn briodol ar gyfer plentyn sydd wedi ei ddatgymhwyso o'r asesiad gan ei Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.

**24.** Er y dylai asesiad statudol ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen y plentyn gael ei gynnal yn iaith y lleoliad, caniateir i leoliadau/ysgolion ddewis cynnal asesiad yn iaith cartref (iaith gyntaf) y plentyn os yw'r adnoddau'n caniatáu hynny. Bydd canlyniad yr asesiad ychwanegol hwn yn anstatudol, ond dylid ei gynnwys yng nghofnod addysgol y plentyn.

**25.** Wrth gynnal yr asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen, bydd ymarferwyr am ystyried gwybodaeth berthnasol a fyddai, efallai, wedi dod gyda'r plentyn wrth iddo/iddi ymuno â'r lleoliad neu'r ysgol, e.e. trafodaethau gyda'r rhieni/gofalwyr a gwybodaeth am blant ar sail Sgiliau Tyfu II ar gyfer plant sydd yn elwa o Dechrau'n Deg.

## Cofnodi a chadw tystiolaeth ynghylch asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen

**26.** Yr ysgolion ddylai benderfynu ar y math o gofnodion a'r ystod o gofnodion a gedwir i'w defnyddio i gynorthwyo asesiad yr ymarferydd. Nid yw'n ofynnol cael trefniadau cymhleth i gofnodi asesiadau a chadw tystiolaeth ac nid ydyn nhw ychwaith yn angenrheidiol i fodloni arolygiadau Estyn. Wrth gadw cofnodion, dylai lleoliadau/ysgolion ystyried goblygiadau Deddf Diogelu Data 1998. Dylid ymdrin yn sensitif ac yn ddiogel hefyd â gwybodaeth bersonol a meddygol.

**27.** Fodd bynnag, bydd yr wybodaeth a gesglir o asesiadau ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen yn galluogi ymarferwyr i ganfod pa rai fydd y camau dysgu addas nesaf ar gyfer y plentyn. Bydd y data hwn yn rhan o gofnod addysgol y plentyn. Rhaid i ymarferwyr ddefnyddio'r manylion, ar wahân i'r olwyn gofnodi, sydd yn gynwysedig yn y ffurflen gofnodi sydd yn rhan o ddeunydd y Proffil i gofnodi canlyniadau eu hasesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen crynodol.

**28.** Rhaid rhoi gwybod i rieni/gofalwyr am ganlyniadau cyrhaeddiad pob plentyn yn erbyn saith Cam y Proffil a gall y lleoliadau/ysgolion a'r awdurdodau lleol ddefnyddio'r canlyniadau i ddarparu dangosyddion gwerth ychwanegol a mesuryddion cynnydd wrth i blant symud drwy'r Cyfnod Sylfaen ac ymlaen i Gyfnod Allweddol 2.

**29.** Bydd canlyniadau'r asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen yn cael eu casglu'n ganolog yn ôl y drefn bresennol o gasglu data cenedlaethol.

## Asesiad parhaol y dosbarth meithrin, y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 (yn cynnwys lleoliadau nas cynhelir a ariennir)

**30.** Nid oes asesiad statudol ar ddiwedd y dosbarth meithrin, y dosbarth derbyn na Blwyddyn 1. Serch hynny dylai arweinwyr/penaethiaid, pan fo'n briodol, sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn casglu tystiolaeth i ddangos cynnydd pob plentyn ym mhob Maes Dysgu.

## Asesiad athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen

**31.** Rhaid i benaethiaid ysgolion a gynhelir:

- sicrhau bod asesiad statudol diwedd cyfnod[5] yn cael ei gynnal o leiaf 20 o ddyddiau gwaith cyn diwedd tymor yr haf
- nodi pa blant a ddylai gael eu hasesu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen
- sicrhau bod deilliannau'r asesiad athrawon o'r Cyfnod Sylfaen, fel y disgrifir nhw yn fframwaith y Cyfnod Sylfaen, yn cael eu cwblhau a'u cofnodi, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, ar gyfer:
  - Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
  - Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
  - Datblygiad Mathemategol

[5] Os yw plentyn yn cyrraedd ysgol ar ôl yr ail ddydd Mawrth ym Mai (sef y dyddiad penodol ar y gofrestr) cyfrifoldeb pennaeth yr ysgol flaenorol yw sicrhau bod asesiad diwedd cyfnod yn cael ei gynnal. Rhaid cyflwyno manylion yr asesiad a chofnod y plentyn i'r ysgol mae'r plentyn wedi symud iddi.

- atgoffa ymarferwyr o'u dyletswydd gytundebol i weithredu'r trefniadau asesu.

**32.** Mae deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn disgrifio'r math a'r ystod o berfformiad dylai plant sy'n gweithio o fewn deilliant penodol ei arddangos fel rheol. Ar sail eu harsylwadau parhaol trwy gydol y Cyfnod Sylfaen dylai ymarferwyr, wrth benderfynu ar lefel cyrhaeddiad plentyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, farnu pa un o ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y plentyn. Dylid gwirio pob un o ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn erbyn deilliannau cyfagos er mwyn sicrhau mai'r deilliant a ddyfernir yw'r un sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y plentyn.

**33.** Er mwyn gallu llunio barn gytbwys am berfformiad plentyn, dylai ymarferwyr ddefnyddio tystiolaeth amrywiol dros gyfnod. Ni ddylai'r ymarferwyr gofnodi'r deilliant sy'n cyd-fynd orau â'r plentyn ar sail un neu ddau o arsylwadau yn ystod tymor diwethaf y plentyn yn y Cyfnod Sylfaen. Dylai asesiadau diwedd cyfnod fod wedi eu seilio'n gadarn ar ddealltwriaeth gyffredin ymarferwyr o'r deilliannau a nodir yn fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r asesiad fod wedi ei seilio ar dystiolaeth sy'n bodoli eisoes am gyrhaeddiad, ac nid ar sail unrhyw ragfynegiadau am berfformiad plant yn y dyfodol.

# Deilliannau a chodau dilys ar gyfer asesiad athrawon

**34.** Mae'r tabl canlynol yn cynnwys y deilliannau a'r codau dilys ar gyfer plant ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

| Deilliant asesiad athrawon | Cod |
|---|---|
| Perfformiad Uwchlaw Deilliant 6 y Cyfnod Sylfaen | A |
| Deilliant 6 y Cyfnod Sylfaen | 6 |
| Deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen | 5 |
| Deilliant 4 y Cyfnod Sylfaen | 4 |
| Deilliant 3 y Cyfnod Sylfaen | 3 |
| Deilliant 2 y Cyfnod Sylfaen | 2 |
| Deilliant 1 y Cyfnod Sylfaen | 1 |
| Yn gweithio tuag at Ddeilliant 1 y Cyfnod Sylfaen | W |
| Datgymhwyswyd o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen neu ran ohono | D |
| Heb dderbyn deilliant am reswm ar wahân i ddatgymhwysiad | N |

**A** a roddir pan fo tystiolaeth yn dangos bod plentyn yn sicr wedi cyrraedd holl elfennau Deilliant 6 mewn Maes Dysgu penodol.

**W** gellir rhoi W pan fo plentyn yn gweithio tuag at Ddeilliant 1 y Cyfnod Sylfaen.

**D** gellir rhoi D os bu rhaid datgymhwyso plentyn rhag cael asesiad athrawon oherwydd bod gan y plentyn Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig; neu os nad yw'n briodol i gynnig cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen fel mae'n ymwneud â'r plentyn ar y pryd.

**N** gellir rhoi N os nad oes gan yr ysgol, oherwydd amgylchiadau, ddigon o wybodaeth a thystiolaeth i lunio asesiad athrawon.

## Cofnodi a chadw tystiolaeth ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen

**35.** Y lleoliadau/ysgolion unigol ddylai benderfynu ar y math o gofnodion a'r ystod o gofnodion a gedwir i gynorthwyo asesiad yr ymarferydd. Nid yw'n ofynnol cael trefniadau cymhleth i gofnodi asesiadau a chadw tystiolaeth ac nid ydyn nhw ychwaith yn angenrheidiol i fodloni arolygiadau Estyn. Wrth gadw cofnodion, dylai ysgolion ystyried goblygiadau Deddf Diogelu Data 1998. Dylid ymdrin yn sensitif a diogel hefyd â gwybodaeth bersonol a meddygol. Mae mwy o gyfarwyddyd ar gael yn www.wales.gov.uk/publications/circular/circulars2006/1552927/?skip=1&lang=cy

## Trefniadau adrodd yn y Cyfnod Sylfaen

**36.** Mae'r adran hon yn cynnwys manylion am adrodd ynghylch asesiadau plant unigol a gwybodaeth am gynnydd ar gyfer pob blwyddyn ysgol yn y Cyfnod Sylfaen. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am yr ysgol a'r data cymharol cenedlaethol sydd i'w gynnwys yn yr adroddiadau diwedd cyfnod i rieni/gofalwyr.

**37.** Mae'r gofynion statudol yn cael eu datgan yn Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2011.

## Adrodd i rieni/gofalwyr

**38.** Dylid trin pob rhiant/gofalwr yn gyfartal oni cheir gorchymyn llys sy'n cyfyngu ar unigolyn o ran cyflawni cyfrifoldeb rhiant. Felly, dylai lleoliadau ac ysgolion wneud pob ymdrech i adrodd i bob unigolyn sy'n rhiant/gofalwr[6], er nad yr unigolyn hwnnw efallai yw'r sawl mae'r lleoliad neu'r ysgol yn ymwneud ag ef/hi o ddydd i ddydd.



[6] Os am arweiniad pellach gweler Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Rhif 12/2007, *"Rhieni" a "Chyfrifoldeb Rhiant"*.

## Trefniadau adrodd ar gyfer yr asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen

**39.** Rhaid i arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir a phenaethiaid ysgolion a gynhelir drefnu bod rhieni/gofalwyr yn cael adroddiad ysgrifenedig ynghylch asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen eu plentyn a'i fod yn ymdrin â'r Meysydd Datblygiadol canlynol a nodir yn y Proffil:

- Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol
- Siarad a Gwrando
- Darllen ac Ysgrifennu
- Didoli, Trefnu a Rhifo
- Agwedd at Ddysgu, Meddwl a Rhesymu
- Corfforol.

**40.** Os bydd plentyn yn cychwyn yn y Cyfnod Sylfaen yn ystod tymor yr hydref, tymor y gwanwyn neu dymor yr haf, rhaid cyflwyno adroddiad asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen yn ysgrifenedig i'r rhiant/gofalwr. Rhaid i'r adroddiad gynnwys y Cam a gyrhaeddwyd ym mhob Maes Datblygiadol a manylion cryno am gyflawniadau'r plentyn.

**41.** Rhaid trefnu bod y rhiant/gofalwr yn cael yr adroddiad yn ystod y tymor y cwblhawyd yr asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen ynddo. Dylid rhoi gwybod i'r rhieni/gofalwyr hefyd am y trefniadau ar gyfer trafod yr adroddiad â'r unigolyn priodol yn y lleoliad/ysgol.

**42.** Os oes asesiadau anstatudol ychwanegol wedi eu cynnal yn iaith cartref (iaith gyntaf) y plentyn, efallai y byddai'r lleoliadau/ysgolion yn dymuno ystyried cynnwys yr wybodaeth honno yn yr adroddiad i'r rhiant/gofalwr.

**43.** Mae olwyn gofnodi wedi ei chynnwys yn neunydd atodol y Proffil ac mae'r olwyn honno'n rhoi darlun graffigol o'r Camau ar gyfer pob Maes Datblygiadol. Gallai'r olwyn gofnodi fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr wrth iddyn nhw ddisgrifio'r asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen i rieni/gofalwyr, ac wrth ddisgrifio'r cynnydd a wneir wedyn gan y plentyn wrth iddo/iddi fynd trwy ran gynharaf y Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal â hynny, mae'r olwyn gofnodi, er nad yw'n statudol, yn fformat y gall ymarferwyr ei ddefnyddio wrth adrodd ynghylch cynnydd y plentyn ym maes creadigrwydd a Datblygiad Creadigol.

# Adrodd ynghylch cynnydd plant yn y dosbarth meithrin, y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1

**44.** Ar gyfer pob plentyn yn y Cyfnod Sylfaen yn y dosbarth meithrin, y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1, dylai'r adroddiad gynnwys o leiaf yr wybodaeth ganlynol:

- manylion cryno am gynnydd y plentyn ym mhob un o'r Meysydd Dysgu
- gweithgareddau sydd yn rhan o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol[7]
- crynodeb o bresenoldeb y plentyn
- manylion am y trefniadau i'r rhieni/gofalwyr drafod yr adroddiad.

**45.** Nid yw'r gofyniad statudol i ddarparu adroddiad ysgrifenedig ar ddiwedd y flwyddyn yn berthnasol pan fo'r plentyn yn cychwyn yn y Cyfnod Sylfaen yn ystod tymor yr haf a'r rhiant/gofalwr wedi derbyn adroddiad asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen.

**46.** Ar gyfer disgyblion sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig, mae'n ofynnol i arweinwyr/benaethiaid baratoi adroddiadau ar gyfer yr adolygiad blynyddol o ddatganiad y disgybl. Mae hynny'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) 2002 (OS 2002/152), ac mae'n unol â'r cyfarwyddyd a gynigir yn y *Cod Ymarfer ar Adnabod ac Asesu Anghenion Addysgol Arbennig*. Os bydd ysgolion yn dymuno, gall yr adroddiadau hyn fod yn adroddiadau blynyddol i'r rhieni/gofalwyr ynghylch cyflawniadau euplentyn. Os felly, rhaid i arweinwyr/benaethiaid sicrhau bod yr adroddiadau a lunnir yn rhan o'r adolygiad blynyddol yn cynnwys yr holl wybodaeth a nodir yn y rheoliadau ynghylch gwybodaeth am ddisgyblion sydd yn yr adran hon.

**47.** Nid yw'r gofyniad statudol i ddarparu adroddiad ysgrifenedig ar ddiwedd y flwyddyn yn berthnasol i leoliadau nas cynhelir a ariennir. Serch hynny anogir arweinwyr lleoliadau felly i fabwysiadu'r arferiad da o ddarparu adroddiad i rieni/gofalwyr am y cynnydd a wnaeth eu plentyn ym mhob Maes Dysgu.



[7] Nid yw darparu addysg grefyddol yn ofynnol ar gyfer plant sydd mewn ysgolion/dosbarthiadau meithrin nac ar gyfer rhai sydd mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir.

# Trefniadau adrodd ar gyfer yr asesiad diwedd cyfnod

**48.** Rhaid i benaethiaid ysgolion a gynhelir drefnu bod rhieni/gofalwyr yn cael adroddiad ynghylch asesiad diwedd cyfnod eu plentyn a'i fod yn ymdrin â deilliannau'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygiad Mathemategol.

**49.** Rhaid i'r adroddiad gynnwys y canlynol:

- manylion cryno am gynnydd y plentyn ym mhob un o'r Meysydd Dysgu
- gweithgareddau sydd yn rhan o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol
- crynodeb o bresenoldeb y plentyn
- manylion am y trefniadau i rieni/gofalwyr drafod yr adroddiad
- sylwadau cryno ar yr hyn mae'r canlyniadau'n ei ddangos am gynnydd y plentyn, gan gynnwys cryfderau a meysydd i'w datblygu
- datganiad sy'n nodi y penderfynwyd ar y deilliannau trwy asesiad athrawon statudol.

**50.** Ar gyfer disgyblion sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig, mae'n ofynnol i benaethiaid baratoi adroddiadau ar gyfer yr adolygiad blynyddol o ddatganiad y disgybl. Mae hynny'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) 2002 (OS 2002/152), ac mae'n unol â'r cyfarwyddyd a gynigir yn y *Cod Ymarfer ar Adnabod ac Asesu Anghenion Addysgol Arbennig*. Os bydd ysgolion yn dymuno, gall yr adroddiadau hyn fod yn adroddiadau blynyddol i'r rhieni/gofalwyr ynghylch cyflawniadau'r plentyn. Os felly, rhaid i benaethiaid sicrhau bod yr adroddiadau a lunnir yn rhan o'r adolygiad blynyddol yn cynnwys yr holl wybodaeth a nodir yn y rheoliadau ynghylch gwybodaeth am ddisgyblion yn yr adran hon.

# Pwerau'r Unigolyn Cyfrifol[8]

**51.** Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol ryddid i:

- gynnwys mewn adroddiad unrhyw wybodaeth bellach am gynnydd plentyn, tu hwnt i'r wybodaeth sy'n ofynnol; mae'n arbennig o bwysig darparu gwybodaeth gyd-destunol mewn adroddiadau am blant sydd ag anghenion addysgol ychwanegol ac yn aml bydd yn briodol i ychwanegu at yr wybodaeth ofynnol sylfaenol drwy ddarparu adroddiad manylach ynghylch cynnydd y plentyn mewn perthynas â'r cwricwlwm mae'n ei ddilyn
- penderfynu ar fformat adroddiadau i rieni/gofalwyr, ac adroddiadau i leoliadau/ysgolion gallai'r plentyn symud iddyn nhw
- trefnu i adroddiad gael ei gyfieithu i ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg neu ei gyfleu ar lafar mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg os yw'n ymddangos bod hynny'n angenrheidiol
- penderfynu pryd i gyflwyno adroddiadau i rieni/gofalwyr, cyn belled â bod yr wybodaeth ofynnol yn cael ei hanfon at rieni/gofalwyr erbyn diwedd tymor yr haf
- hepgor o'r adroddiad i'r rhieni/gofalwyr unrhyw wybodaeth a allai fod yn niweidiol i'r plentyn neu i'r rhieni/gofalwyr, neu a allai olygu bod hynny'n datgelu gwybodaeth am blentyn arall (fel yr eglurir yn y paragraff canlynol).

**52.** Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol bwerau penodol i adael allan rai mathau o wybodaeth gyfrinachol o'r adroddiadau i rieni/gofalwyr. Mae'r pwerau hynny'n ymwneud â gwybodaeth:

- a ddarperir gan unrhyw un ar wahân i'r canlynol:
  - unigolyn a gyflogir gan yr awdurdod sydd yn cynnal yr ysgol neu sydd yn ariannu'r lleoliad
  - athro/athrawes neu weithiwr arall a gyflogir yn y lleoliad/ysgol (gan gynnwys seicolegydd addysg a ddefnyddir dan gontract ar gyfer gwasanaethau)
  - swyddog lles addysg
  - y person sydd yn gofyn am ddatgelu gwybodaeth

[8] Yr 'Unigolyn Cyfrifol' yw pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir, neu'r unigolyn sy'n gyfrifol am ddarparu addysg mewn lleoliad nas cynhelir a ariennir.

- sydd yn golygu bod modd adnabod person (ar wahân i'r plentyn mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef/hi neu un o'r unigolion a nodir uchod) fel ffynhonnell yr wybodaeth neu fel yr un mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef/hi
- a fyddai, ym marn yr Unigolyn Cyfrifol, yn debygol o achosi niwed difrifol i'r plentyn dan sylw neu i unrhyw unigolyn arall
- sydd yn gysylltiedig ag achos o gamdrin plentyn neu risg gallai plentyn gael ei gamdrin
- a fyddai'n golygu bod manylion yn cael eu datgelu am blentyn ar wahân i'r plentyn yr adroddir yn ei gylch.

## Gwybodaeth gymharol yr ysgol

**53.** Gwybodaeth yw hyn am y ganran o blant yr ysgol sy'n cyd-fynd â phob un o ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygiad Mathemategol.

**54.** Os yw'n briodol, dylai gwybodaeth gymharol yr ysgol gynnwys y canlynol hefyd, wedi ei nodi ar ffurf canran o nifer y plant sy'n gymwys i gael eu hasesu:

- y rhai sydd wedi eu datgymhwyso dan Adran 113–116 Deddf Addysg 2002
- y rhai sydd yn gweithio tuag at Ddeilliant 1 y Cyfnod Sylfaen
- y rhai na ddyfarnwyd lefel iddyn nhw am resymau heblaw eu bod wedi eu datgymhwyso.

## Gwybodaeth gymharol genedlaethol

**55.** Gan na fydd yr asesiadau statudol diwedd cyfnod cyntaf yn cael eu cynnal tan flwyddyn ysgol 2011/12, ni fydd gwybodaeth gymharol genedlaethol ar gael i'w chynnwys mewn adroddiadau hyd flwyddyn ysgol 2012/13. O flwyddyn ysgol 2012/13 ymlaen, yr wybodaeth dylid ei chynnwys yw canran o blant yng Nghymru sydd yn cyd-fynd â phob un o ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygiad Mathemategol.

**56.** Os yw'n briodol, dylai'r wybodaeth gymharol genedlaethol gynnwys y canlynol hefyd, wedi ei nodi ar ffurf canran o nifer y plant sy'n gymwys i gael eu hasesu:

- y rhai sydd wedi'u datgymhwyso dan Adran 113–116 Deddf Addysg 2002
- y rhai sy'n gweithio tuag at Ddeilliant 1 y Cyfnod Sylfaen
- y rhai na ddyfarnwyd lefel iddyn nhw am resymau heblaw'r ffaith eu bod wedi eu datgymhwyso.

**57.** Bob blwyddyn, bydd y canlyniadau cenedlaethol ar gyfer Cymru'n cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ystadegau

## Beth fydd yn digwydd pan fydd plentyn yn symud i leoliad neu ysgol newydd?

**58.** Pan fydd plentyn yn symud i leoliad neu ysgol newydd rhaid trosglwyddo dogfennaeth sydd yn bodoli am gynnydd a chyrhaeddiad y plentyn, os yw hynny'n rhesymol ymarferol, i arweinydd y lleoliad newydd neu i bennaeth yr ysgol sydd yn derbyn y plentyn, pa un bynnag a fo'n briodol. Rhaid gwneud hyn o fewn 15 o ddyddiau ysgol wedi i'r plentyn beidio â bod ar gofrestr yr hen leoliad neu ysgol neu o fewn 15 o ddyddiau ysgol ar ôl derbyn cais gan yr ysgol newydd am yr wybodaeth.

**59.** Rhaid i'r gwybodaeth gynnwys y canlynol:

- canlyniadau asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen y plentyn ar gyfer y Meysydd Datblygiadol Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol; Siarad a Gwrando; Darllen ac Ysgrifennu; Didoli, Trefnu a Rhifo; Agwedd at Ddysgu, Meddwl a Rhesymu; a Chorfforol
- yn achos ysgolion, canlyniadau asesiad athrawon statudol diwedd cyfnod y plentyn ar gyfer y Meysydd Dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol; Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; a Datblygiad Mathemategol, a'r flwyddyn ysgol y cynhaliwyd yr asesiadau.

**60.** Ni fydd y ddyletswydd i ddarparu'r wybodaeth uchod ar gyfer lleoliad/ysgol newydd plentyn yn berthnasol os:

- yw'r plentyn wedi bod ar gofrestr y lleoliad/ysgol am lai na phedair wythnos; fodd bynnag, mewn achos o'r fath, dylai'r arweinydd/pennaeth wneud pob ymdrech i sicrhau bod y lleoliad/ysgol newydd yn derbyn unrhyw adroddiadau a ddarparwyd gan ysgol neu ysgolion blaenorol y plentyn
- nad yw'n rhesymol ymarferol i'r arweinydd/pennaeth ddod o hyd i fanylion lleoliad/ysgol newydd y plentyn; fodd bynnag, dylai'r arweinydd/pennaeth o leiaf ffonio rhieni/gofalwyr y plentyn, ac anfon llythyr at y rhieni/gofalwyr os yw'n gwybod eu cyfeiriad, i ofyn ym mhle bydd y plentyn yn parhau â'i addysg.

# Deunyddiau atodol

## Cymorth am asesiad athrawon yn y Cyfnod Sylfaen

*Arsylwi ar Blant* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

*Cyfnod Sylfaen Proffil Datblygiad Plentyn* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009)

*Proffil asesu datblygiad plentyn Cyfnod Sylfaen* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011)

*Asesiad diwedd y Cyfnod Sylfaen: Enghreifftio deilliannau* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011)

## Rheoliadau

Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu wrth Dderbyn i'r Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2011

Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu Diwedd y Cyfnod Sylfaen a Diddymu Trefniadau Asesu'r Cyfnod Allweddol Cyntaf) (Cymru) 2011

# Atodiad A: Crynodeb o’r trefniadau asesu

| Oed | Math o asesiad | Amser | Pa bethau dylid eu hasesu? | Pwrpas |
|---|---|---|---|---|
| Pan fydd plentyn yn cychwyn yn y Cyfnod Sylfaen yn 3, 4 neu 5 oed. | Asesu gan ymarferydd drwy arsylwi gan ddefnyddio’r Proffil. | O fewn 30 o ddyddiau gwaith wedi i’r plentyn gychwyn yn y Cyfnod Sylfaen. | Meysydd Datblygiadol y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys:<br>• Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol<br>• Siarad a Gwrando<br>• Darllen ac Ysgrifennu<br>• Didoli, Trefnu a Rhifo<br>• Agwedd at Ddysgu, Meddwl a Rhesymu<br>• Corfforol.<br>Yr asesiadau i’w cynnal yn iaith y lleoliad. | • Darparu ‘gwaelodlin’ ar gyfer pob plentyn wrth iddo/iddi gychwyn yn y Cyfnod Sylfaen.<br>• Galluogi ymarferwyr i lunio rhaglen ddysgu pob plentyn.<br>• Darparu asesiad cychwynnol er mwyn denu diddordeb rhieni/gofalwyr yn natblygiad eu plentyn.<br>• Bod yn rhan o gofnod cwricwlaidd y plentyn.<br>• Galluogi lleoliadau/ysgolion ac awdurdodau lleol i ddarparu dangosyddion gwerth ychwanegol a mesurau cynnydd wrth i’r plant symud drwy’r Cyfnod Sylfaen ac i Gyfnod Allweddol 2.<br>• Darparu ‘gwaelodlin’ genedlaethol am y plant sydd yn cychwyn yn y Cyfnod Sylfaen. |
| Blynyddoedd eraill y Cyfnod Sylfaen (dosbarth meithrin, dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 – yn cynnwys lleoliadau nas cynhelir a ariennir). | Nid oes asesiad statudol ar ddiwedd y dosbarth meithrin, y dosbarth derbyn na Blwyddyn 1 ond dylai arweinwyr/penaethiaid, os yw’n briodol, sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn casglu tystiolaeth am gynnydd pob plentyn ym mhob Maes Dysgu. | | | • Bod yn ffynhonnell o wybodaeth ar gyfer adroddiadau ysgrifenedig diwedd blwyddyn i rieni/gofalwyr.<br>• Casglu gwybodaeth er mwyn hybu dysgu’r plant a chynllunio’r cam nesaf yn eu datblygiad. |
| Pan fydd plentyn yn cwblhau’r Cyfnod Sylfaen yn 7 oed. | Asesiad athrawon statudol diwedd cyfnod. | Ugain o ddyddiau gwaith cyn diwedd tymor yr haf ym mlwyddyn olaf y Cyfnod Sylfaen. | Deilliannau’r Cyfnod Sylfaen ar gyfer:<br>• Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol<br>• Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Cymraeg neu Saesneg)<br>• Datblygiad Mathemategol. | • Creu asesiad crynodol o gyrhaeddiad a chynnydd plentyn.<br>• Tynnu sylw at gryfderau a meysydd i’w datblygu.<br>• Bod yn ffynhonnell o wybodaeth ar gyfer penderfynu ar gamau dysgu nesaf y plentyn.<br>• Darparu gwybodaeth ar gyfer athrawon Blwyddyn 3 am anghenion dysgu a datblygu pob plentyn.<br>• Darparu darlun cenedlaethol o gyrhaeddiad fel y gellir ei ddefnyddio ar gyfer meincnodi ac ar gyfer dangosyddion gwerth ychwanegol.<br>• Bod yn rhan o gofnod y plentyn. |

# Atodiad B: Enghraifft allan o'r Proffil

## Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol

3c

**Adnabod eu teimladau a'u hemosiynau eu hunain**

Nid yw plant ifanc bob amser yn ymwybodol o'r ffaith eu bod yn profi gwahanol gyflyrau emosiynol. Mae'r Disgrifiad o Ymddygiad hwn yn ymwneud â'r cam datblygiadol pan ddaw plant eu hunain yn ymwybodol o'r emosiynau hyn. Er enghraifft, efallai byddan nhw'n hapus, trist, cyffrous, nerfus, neu'n ofnus ac yn gallu adnabod a mynegi sut maen nhw'n teimlo. Mae'r hunanymwybyddiaeth hwn yn amlwg pan mae plant yn gallu adnabod a disgrifio eu hemosiynau i oedolyn neu i blentyn arall.

**Sut, ble a phryd i asesu**

Gellir arsylwi ar ymwybyddiaeth o deimladau ym mhob maes darpariaeth barhaol ar unrhyw adeg o'r dydd, neu mewn gweithgaredd ffocws manwl a gynlluniwyd er mwyn siarad am wahanol deimladau. Rhaid nodi'r teimlad ar lafar, drwy ystum, gan ddefnyddio pypedau, neu efallai mewn llun anodedig.

**Enghreifftiau**

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

- Gall drychau ddarparu adborth i blant mewn sawl ffordd wahanol. Yn yr enghraifft hon, roedd plant yn rhoi cynnig ar amrywiaeth o fynegiannau sy'n dynodi amrediad o emosiynau. Roedd y gweithgaredd drych yn fwy na thynnu ystumiau yn unig, oherwydd bod y plant yn mynegi'r teimlad sy'n gysylltiedig â phob mynegiant yr oedden nhw'n arbrofi ag ef.
- Eisteddodd Jess, Ieuan a Gareth gyda Mrs Williams oedd newydd ddarllen stori'r 'Cywion Tylluan' iddyn nhw. Meddai Jess, "Mae gen i ofn yn fy ystafell wely. Rwy'n clywed synau ac yn galw ar Dad." Roedd hi wedi nodi ei bod wedi profi teimlad ofnus a llwyddodd i fynegi y teimlad, pan atgoffwyd hi ohono gan yr emosiwn a deimlodd wrth wrando ar y stori.

**Cynnydd tuag at y deilliannau:** Wrth iddyn nhw wneud cynnydd tuag at Ddeilliant 3, mae gwerthfawrogiad plant o'u hamrediad o emosiynau'n cynyddu. Maen nhw'n debygol o arddangos peth rheolaeth dros eu hemosiynau a rhai o'r ffyrdd y caiff emosiynau eu dangos mewn cyd-destunau gwahanol.

**Creadigrwydd:** Mae ymchwilio i ddefnyddiau, seiniau a lluniau'n gallu annog plant i fynegi syniadau a hwyliau megis hapusrwydd neu dristwch sy'n nodweddion o Ddatblygiad Creadigol Deilliant 3.

20 Proffil asesu datblygiad plentyn Cyfnod Sylfaen